CYHOEDDIAD

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Atodiad i Adroddiad Grŵp Tasglu Parcio ar y Palmant Cymru Gorffennaf 2022

Ein hymateb i adroddiad parcio pafin Cymru

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Rhagair

Cyflwyniad

Argymhelliad 1

Argymhelliad 2

Argymhelliad 3

Argymhelliad 4

Argymhelliad 5

Argymhelliad 6

Argymhelliad 7

Argymhelliad 8

Argymhelliad 9

Argymhelliad 10

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Rhagair

Mae’n bleser gennyf ymateb i’r argymhellion pellach a wnaed gan Grŵp Tasglu Parcio ar y Palmant Cymru, yr wyf wedi’u derbyn ac yn awr yn bwriadu ymgynghori’n eang cyn hynny gyda golwg ar gyflwyno’r ddeddfwriaeth angenrheidiol erbyn diwedd 2023. Hoffwn ddiolch unwaith eto. Phil Jones a gadeiriodd y Grŵp Tasglu, ynghyd â phawb ar y Grŵp sydd wedi cyfrannu a helpu i gynhyrchu’r atodiad hwn i’r adroddiad gwreiddiol.

Lee Waters

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

# Cyflwyniad

Roedd y strategaeth flaenorol o gyflwyno is-ddeddfwriaeth i ganiatáu gorfodi sifil ar y rhwystr diangen ar y palmant a argymhellwyd gan y Grŵp Tasglu ym mis Hydref 2020 yn dibynnu ar ddiwygio’r drosedd o rwystro’r ffordd (sy’n cynnwys y palmant) gan Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y DU i gerfio'n benodol y 'palmant' o 'ffordd' yn rheoliad 103 o Reoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladu a Defnyddio) 1986 - sy'n gwneud rhwystro diangen y ffordd yn drosedd.

Fodd bynnag, gan fod Llywodraeth Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â’r mater hwn, fe wnaethant gyfarwyddo Grŵp Tasglu i ailgynnull ym mis Ebrill a mis Gorffennaf 2022 ac ystyried dull gweithredu amgen sy’n golygu bod Gweinidogion Cymru yn diwygio deddfwriaeth i ychwanegu’r drosedd o rwystro’r ffordd, heb ddiwygiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i rannu’r palmant, i'r rhestr o dramgwyddau parcio y gellir eu gorfodi gan awdurdodau lleol trwy orfodi sifil.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Argymhelliad 1

**Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)**

Dylai'r Senedd basio is-ddeddfwriaeth i ychwanegu'r drosedd bresennol o dan Reoliad 103 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986, i'r graddau y mae'n berthnasol i lwybrau troed, at y rhestr o dramgwyddau y gellir eu gorfodi er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni gwaith gorfodi sifil o barcio ar y palmant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)**

Mae Atodlen 7 i Ddeddf Rheoli Traffig (DRhT) 2004 yn nodi'r tramgwyddau sy'n ddarostyngedig i orfodi sifil. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd, i ddiwygio Atodlen 7 i'r DRhT i ychwanegu troseddau pellach i'r graddau y maent yn ymwneud â cherbydau llonydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ond yn cynnig gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a mireinio'r cynnig polisi hwn ymhellach.

Wrth gyflwyno rheoliadau, byddant yn ymgynghori â chynrychiolwyr perthnasol prif swyddogion yr heddlu a chymdeithasau awdurdodau lleol, fel y bo'n briodol.

**Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)**

Dylai'r Senedd basio is-ddeddfwriaeth i ychwanegu'r drosedd bresennol o dan Reoliad 103 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986, at y rhestr o dramgwyddau y gellir eu gorfodi i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwaith gorfodi sifil ar rwystrau diangen ar y briffordd.

Mae paragraff 5(1) o Ran 1 o Atodlen 7 i DRhT 2004 yn caniatáu i awdurdod cenedlaethol ychwanegu troseddau parcio pellach at restr y rhai sy’n destun gorfodi sifil. Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i gerbydau modur llonydd.

Yn unol â’r ddarpariaeth hon, gall Llywodraeth Cymru ychwanegu’r tramgwydd sydd i ddilyn at Baragraff 4 o Ran 1, Atodlen 7 o DRhT 2004, sy’n galluogi awdurdodau lleol i gyflawni gwaith gorfodi sifil yn erbyn rhwystr diangen i’r briffordd gan gerbydau modur.

Mae paragraff 5(3) o Ran 1 o Atodlen 7 i DRhT 2004 yn nodi:

Cyn gwneud rheoliadau sy’n diwygio paragraff 4 rhaid i’r awdurdod cenedlaethol priodol ymgynghori gyda'r gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)**

Mae Atodlen 7 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 yn nodi'r tramgwyddau sy'n destun i orfodi sifil. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Atodlen 7 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i ychwanegu troseddau pellach i’r graddau y maent yn ymwneud â cherbydau llonydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor a byddant yn awr yn ymgynghori ar y cynnig hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Argymhelliad 2

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai awdurdodau lleol nodi'r lleoliadau hynny lle caniateir parcio ar balmentydd trwy Orchmynion Rheoleiddio Traffig.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

Bydd Gweinidogion Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda'r broses hon fel y nodir yn Argymhelliad 3.

### Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Nid yw'r argymhelliad hwn yn briodol mwyach. Ni cheir defnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig at y diben hyn.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Amherthnasol

# Argymhelliad 3

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth berthnasol i nodi sut y gellir symleiddio'r broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y rheoliadau gweithdrefnau gorchymyn rheoleiddio traffig dros dro, a ddaeth i rym yn ystod pandemig y Coronafeirws ac a barhaodd mewn grym tan fis Gorffennaf 2021, gyda'r bwriad o benderfynu a oes angen unrhyw newidiadau parhaol i'r broses.

### Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Gan gydweithio â rhanddeiliaid, bydd Grŵp Tasglu Parcio ar y Palmant yn cwblhau'r Canllawiau Statudol a Gweithredol ar orfodi Parcio Sifil i gynghori awdurdodau lleol ar sut i weithredu eu pwerau gorfodi newydd.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Awdurdodau Lleol, Cyd-bwyllgor PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain), Y Tribiwnlys Cosbau Traffig, Cymdeithas Parcio Prydain, a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru.

## Argymhelliad 4

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau Statudol a Gweithredol presennol ar Orfodi Parcio Sifil i gynghori awdurdodau lleol sut i weithredu eu pwerau gorfodi newydd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Awdurdodau Lleol, Cyd-bwyllgor PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain), Y Tribiwnlys Cosbau Traffig, Cymdeithas Parcio Prydain, a phartïon eraill sydd â diddordeb gyda datblygu canllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru.

### Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Gan gydweithio â rhanddeiliaid, bydd Grŵp Tasglu Parcio ar y Palmant yn cwblhau'r Canllawiau Statudol a Gweithredol ar orfodi Parcio Sifil i gynghori awdurdodau lleol ar sut i weithredu eu pwerau gorfodi newydd.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Awdurdodau Lleol, Cyd-bwyllgor PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain), Y Tribiwnlys Cosbau Traffig, Cymdeithas Parcio Prydain, a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru.

## Argymhelliad 5

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth y DU i ddiwygio Rheolau'r Ffordd Fawr i hysbysu defnyddwyr y ffyrdd bod parcio ar y palmant yng Nghymru yn destun gorfodi sifil.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth y DU i orchmynion y Ffordd Fawr i hysbysu'r ffyrdd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu yn unol â'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer diwygiadau i Reolau'r Ffordd Fawr yn ôl y gofyn.

### Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i ddiwygio Rheolau'r Ffordd Fawr er mwyn hysbysu defnyddwyr y ffyrdd bod rhwystr diangen i'r ffordd yn destun i orfodi sifil.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Adran Drafnidiaeth y DU i ddiwygio Rheolau'r Ffordd Fawr.

## Argymhelliad 6

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai Llywodraeth Cymru ddylunio a chynnal strategaeth cyfathrebu a hyrwyddo effeithiol, ar y cyd ag awdurdodau lleol, i hysbysu'r cyhoedd bod y broses o orfodi parcio ar balmentydd yn newid ac i hybu cydymffurfiaeth gyrwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

Bydd y cyngor a baratowyd gan yr is-grŵp Cyfathrebu a Newid Ymddygiad gan y Grŵp Tasglu 20 mya yn cael ei ddefnyddio, i lywio a chefnogi datblygiad strategaeth cyfathrebu a marchnata effeithiol ar gyfer y newid yn y drefn orfodi gyda pharcio ar balmentydd.

### Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Dylai cam cyntaf cyfathrebu a marchnata ganolbwyntio ar barcio ar y palmant sy'n rhwystrol ddiangen gan mai dyma'r broblem fwyaf dybryd. Gallai achosion eraill o rwystro'r briffordd ddilyn yn ddiweddarach. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cysylltu'r cyfathrebu â 20mya diofyn a thrafod y posibilrwydd o hyrwyddo 'brand' cyffredin o allu byw mewn cymunedau/lleoedd a rennir/ strydoedd a rennir.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gyfathrebu a marchnata newydd i gyd-fynd â'r Ymgyrch Gyfathrebu 20 mya sy'n mynd rhagddi.

## Argymhelliad 7

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso fel y gellir gwneud asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y drefn orfodi newydd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso i sicrhau bod y drefn orfodi newydd mor effeithiol â phosibl.

**Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 202)**

Dylai Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso i sicrhau bod y drefn orfodi newydd mor effeithiol â phosibl.

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso i sicrhau bod y drefn orfodi newydd mor effeithiol â phosibl.

# Argymhelliad 8

**Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)**

Dylai PATROL gasglu data ar ôl y 12 mis cychwynnol ar ôl i waith gorfodi awdurdodau lleol ddechrau er mwyn asesu a oes angen unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau neu weithrediadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda PARTOL i asesu a oes angen unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau neu weithrediadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Diweddariad i’r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Dylai PATROL gasglu data ar ôl y 12 mis cychwynnol ar ôl i waith gorfodi awdurdodau lleol ddechrau er mwyn asesu a oes angen unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau neu weithrediadau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda PARTOL i asesu a oes angen unrhyw newidiadau pellach i ddeddfwriaeth, canllawiau neu weithrediadau.

## Argymhelliad 9

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai Llywodraeth Cymru gyrraedd y cerrig milltir allweddol a ganlyn i alluogi cychwyn gorfodi sifil ar barcio ar balmentydd erbyn Gorffennaf 2022:

- Cyhoeddi Adroddiad y Tasglu - Hydref 2020
- Datganiad Gweinidogol yn rhoi’r bwriad i symud ymlaen - Hydref 2020
- Pleidlais y Cyfarfod Llawn i fwrw ymlaen â deddfwriaeth - Hydref 2020
- Cychwyn Offeryn Statudol - Gorffennaf 2022

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

Bydd Datganiad Llafar yn cael ei wneud ym mis Hydref 2020 i rannu gyda’r Senedd y bwriad i ddeddfu i geisio mynd i’r afael â pharcio ar balmentydd.

Yn amodol ar ymgynghoriad, bydd pasio a chychwyn yr Offeryn Statudol yn dilyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

y dyddiadau a argymhellir.

### Diweddariad i’r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Bu oedi i'r amserlen a osodwyd yn wreiddiol yn y Grŵp Tasglu. Dylid gwneud pob ymdrech i ddod â’r pwerau newydd i mewn cyn gynted â phosibl a dylai deddfwriaeth ddod i rym erbyn hydref 2023.

- Cyhoeddi Adendwm i Adroddiad y Tasglu – Hydref 2022
- Datganiad Gweinidogol yn rhoi’r bwriad i symud ymlaen - Hydref 2022
- Offeryn Statudol a osodwyd gerbron y Senedd – Mai/Mehefin 2023
- Cychwyn Offeryn Statudol – Rhagfyr 2023

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i ddilyn y rhaglen weithredu a argymhellir a nodir yn yr adroddiad.

## Argymhelliad 10

### Argymhelliad adroddiad Grŵp Tasglu (Hydref 2020)

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tîm prosiect penodedig i arwain a chydgysylltu’r holl dasgau angenrheidiol i gyflwyno gorfodi sifil ar barcio ar y palmant.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2020)

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Tîm Prosiect i fwrw ymlaen â’r rhaglen

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

weithredu Parcio Palmant fel y gall awdurdodau lleol ymgymryd â gwaith gorfodi erbyn mis Gorffennaf 2022.

### Diweddariad i'r Argymhelliad (Gorffennaf 2022)

Dim newid.

### Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Tîm Prosiect i fwrw ymlaen â'r rhaglen weithredu Parcio Palmant fel y gall awdurdodau lleol ymgymryd â gwaith gorfodi erbyn mis Rhagfyr 2023.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-atodiad-i-adroddiad-grwp-tasglu-parcio-ar-y-palmant-cymru-gorffennaf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.